

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 24/09/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Angela Russell
Iwan Hughes
Rhian Hughes-Jones
(Clerc)

Thomas Victor Jones
John Brinley Jones

Greta Hughes
Rhodri Ellis Owen

William Roger Jones
William Penri Jones

1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Clair Russell Griffiths a Barbra Warren

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

3. Cofnodion 30/07/2018 a cyfarfod brys 28/08/2018

Derbyn Cofnodion 30/07/2018 a cyfarfod brys 28/08/2018 yn gywir ac wedi eu arwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

- Cydymdeimlo hefo Cynghorydd Cymuned John Brinley Jones a rei gollad yn ddiweddar.
- a wasanaeth sydd yn bwysig i chi?** Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd i holi pa wasanaethau sydd yn bwysig i'r Gymuned. Nodwyd bod eisiau gyrru ymateb erbyn 02/11/2018. Bydd y Clerc yn ceisio ffeindio copi electroneg yw gyrru allan a chynghorwyr yr ymateb yn uniongyrchol i'r Clerc gydlyn.
- Gliniadur i'r Clerc.** Nodwyd bod y Clerc yn cadw llygaid am fargeinion ac yn awyddus i bwrcasu gliniadur pan mae yna ostyngiad pris. Cytunwyd i'r Clerc pwrcasu gliniadur priodol gydag uchafswm o £500.00.
- Hyfforddiant Cyllid.** Bydd y Clerc yn mynychu hyfforddiant cyllidol yn Gyngor Tref Llangefni 25/09/2018 fel rhan o'i gwaith fel Clerc i Gyngor Tref Nefyn. Nodwyd y buasai'n gyfle da i rannu costau'r dyfodol.
- Gwasanaeth Cyflogau.** Cytunwyd i'r clerch hel amcanbris i ddarparu gwasanaeth cyflogau ac adrodd yn ol i'r pwyllgor.
- Angen Gosod presept.** Bydd eisiau trefnu presept cyn y Nadolig.

5. Etholiadau

Yn dilyn hysbysebion wedi eu gosod yn y pentref mae'r pwyllgor wedi derbyn dau gais. Gan fod dau gais wedi ei dderbyn bydd angen cynnal etholiad. Cytunwyd i'r clerch gysylltu hefo Gyngor Gwynedd i gael Cyngor ar y mater. Bydd llythyr yn mynd i'r ddau ymgeisydd i egluro'r sefyllfa. Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor yn cyfarfod mis Hydref.

6. Rheoliadau Sefydlog

Mae'r Clerc wedi darparu copïau o ddrafft Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith ac asesiad risg. Mae'r gwaith yn eithaf swmpus a chytunwyd i drefnu cyfarfod is-bwyllgor i fynd trwy'r rheoliadau i gyd. Bydd y Clerc yn trefnu dyddiad at ddechrau mis Hydref yn ogystal a ffeindio rheoliadau gwreiddiol Cyngor Cymuned Llanbedrog.

7. Gwefan y Cyngor Cymuned

Mae'r Clerc dal mewn cysylltiad gydag Arfon Hughes o Cradur.com. Mae Arfon Hughes yn parhau i dderbyn triniaeth ac felly mae'n anodd mynd ymlaen a'r gwaith. Penderfynwyd y Clerc i deipio'r wybodaeth angenrheidiol ac mae aelodau'r pwyllgor am ddarparu lluniau. Mae'r Clerc am barhau i weithio ar y wefan. Mae'r pwyllgor yn rhoi hawl i'r Clerc gwneud y newidiadau a darparu gwybodaeth yn y pwyllgorau.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 24/09/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

8. Archwiliad BDO

Yn dilyn cyfarfod brys (Gweler atodiad 1) i archwilio'r wybodaeth sydd yw gyrru i BDO mae'r gwaith wedi eu cwblhau. Mae adroddiad bellach wedi ei yrru i'r BDO Diolch i John Harris y cyn Clerc.

9. Cae Chwarae

Mae'r offer sydd yn y cae chwarae yn beryg iawn gan ei fod wedi dirywio. Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn nifer o gwynion gan y cyhoedd. Awgrymir i 'r Clerc dynnu lluniau o'r holl offer sydd yno a'i gymharu hefo'r adroddiad diogelwch diweddaraf.

Mae'r ffens ar waelod y cae yn beryglus iawn gyda phlant yn chwarae yn agos iawn i'r dibyn, bydd angen gwneud gwelliannau i hyn cyn gynted â phosib.

Clerc i adrodd yn o li bwyllgor mis Hydref.

10. Dolen giat Cae Pentra Llan

Gwybodaeth gan Angela Russel – Mae'r giat yn beryg iawn fel a mae yn agor i'f ffordd fawr. Mae'r poliaon wedi pydru ac angen eu newid. Cytunwyd i'r Clerc gael prisiau i wneud y gwaith.

11. Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones yn dilyn cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru. Bydd cofnodion un llais ar gael erbyn cyfarfod mis Hydref.

Cynigwyd y Clerc i'r pwyllgor nodi unrhyw waith arbennig mae'r Cyngor Cymuned wedi eu gwneud yn ddiweddar.

Mae'n gyfle arbennig i hyrwyddo'r gwaith called mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud.

Ceisiadau Cynllunio

C18/0822/38/CC

Gwaith torri a tocio coed o dan Orchymyn Gwarchod Coed
Boat House, Llanbedrog.

Dim Gwrthwynebiad

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y cler - Rhian Hughes-Jones

Mis Awst a Medi 2018 £333.33 + £333.33

Ad-daliad gweinyddol £11.25

£677.91

Mr D Russell –

Torri gwair Cae Chwarae 2018 - £1535.00

Torri gwair Cae Pentra Llan 2018 - £550.00

£2085.00

Canolfan y Gwystl – Blodau

£250.00

Taliadau wedi eu gwneud yn Cyfarfod Brys Mis Awst

Wynnstay – Lladd Gwair

Cyngor Gwynedd - Toiledau

£53.56

Cyngor Gwynedd – Priffyrdd

£2000.00

Cyngor Gwynedd – Priffyrdd

£55.20

£75.00

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Angela Russlle

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 24/09/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Taliadau wedi eu derbyn

Stackhouse Poland – Ad-daliad	£413.88
G D Roberts & son – Angladd	£90.00
Scottish Power – Ad-daliad	£17.85

Gohebiaeth

1. **Grwp Cynhefin** – Adroddiad Blynnyddol 2017-18
2. **Priffyrdd** - Rybudd cau ffordd mewn Argyfwng 08/08/2018
3. **Cynllunio** - Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio
4. **Gwyl fwyd Pwllheli mehefin 2019** - Rydym yn chwilio am drysorydd gyda phrofiad mewn cyllid yn ogystal â gwirfoddolwyr ar y diwrnod
5. **Cist Cymunedol** - Grant Cist Gymunedol Gwynedd
6. **Gweithiwr Cymorth Ieuenctid** – Andrew Owen
7. **Cyngor Gwynedd** – Gwaith priffyrdd mis Medi

Cais am gyfraniad

1. Llyfrau llafar Cymru